**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Mercher, 18 Gorffennaf, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Llun, 23 Gorffennaf, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Llun, 30 Gorffennaf, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mawrth, 31 Gorffennaf, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd) R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones (hefyd yn Aelod Lleol) a Robin Williams

**Ymddiheuriadau**: Dim

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Glyn Haynes, Aled M. Jones, Eric Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts.

(2:00 y. p. tan 4:10 y. p.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Seiriol**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**<br>• **Bod trafodaethau gyda grwpiau gofal plant cyn-ysgol – "Little Puffins" a Ti a Fi – yn cael eu cynnal yn fuan i weld pa fath ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol sydd ei hangen yn yr ardal.**<br>• **Bod Cwlwm Seiriol yn cael ei gynnwys yn y Grwp Rhanddeiliaid ôl-penderfyniad fydd yn cael ei sefydlu.**<br><br>*Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddiddordeb a ni chymerodd ran yn y bleidlais ar y mater* |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |